

HAF BACH
MIHANGEL

WILIA

RHIF 419 HYDREF 2019
PRIS 50C 0.6 EWRO

PAPUR MISOL CYMRAEG
ABERTAWE

Y TU MEWN:

2
Llythrau Willia
Pwy oedd Gwilym
Crach?!

3
Gŵyr a Chanolfan
CUBRIC
Gŵyr a'r Gweilch

4 Pethau rhyfedd
yng Ngogledd
Gwyr

5
Taith Bryn Tawe i
Amsterdam

6
Cymdeithas
Gymraeg Treforys
a Gorsedh
Kernow

7
Clwb Drama
Menter Iaith
Abertawe
Alan ar raglan
Bore Cothi

8
Taith i Freiburg
Noson ddathlu
Ystalyfera

..... A llawer,
llawer mwy!

LLAWFEDDYG I SEFYLL DROS BLAID CYMRU YN ABERTAWE

Mae Plaid Cymru wedi cyhoeddi y bydd llawfeddyg 40 oed yn ymladd etholaeth Gorllewin Abertawe yn yr etholiad cyffredinol nesaf.

Dewiswyd y Dr Gwyn Williams, offthalmolegydd ymgynghorol yn ysbyty Singleton, Abertawe gan gangen leol y Blaid. "Rydyn ni wrth ein boddau fod Plaid Cymru yn cyflwyno ymgeisydd mor alluog yn yr etholiad San Steffan nesaf - pryd bynnag y bydd hynny'n digwydd", meddai Dr Dai Lloyd, sy'n Aelod Cynulliad rhanbarthol dros Dde-orllewin Cymru.

"Gyda'r Toriaid a'r Blaid Lafur ar chwâl, rydyn ni'n edrych ymlaen at ymladd ymgyrch gref wedi'i seilio ar ein rhaglen o ennill hunanlywodraeth cyflawn i Gymru."

YSGOL YSTALYFERA

Magwyd Gwyn Williams yn Rhiwfawr yng Nghwm Tawe. Hanai ei fam o ardal Gendros, Abertawe a'i dad o bentref Blaendulais yng Nghwm Dulais. Cafodd ei addysg yn Ysgol Gyfun Ystalyfera cyn cymryd ei radd



mewn meddygaeth yng Ngholeg y Brenin, Llundain a chwblhau hyfforddiant llawfeddygol yn Wolverhampton. Dychwelodd i Gymru yn 2007 i arbenigo mewn triniaeth y retina, wfeitis a chata-ractau.

Yn 2015-16, dyfarnwyd iddo Frawdoliaeth yn Ysbyty Llygaid Moorfields, canolfan rhagoriaeth fyd-eang ar gyfer gwasanaethau iechyd llygaid, ac mae yn gweithio yn uwchddarlithydd mygedol yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe.

Mae hefyd yn gwasanaethu fel ymgynghorydd addysgol dros Gymru i Gymdeithas Frenhinol yr Offthalmolegwyr.

Mae gan Gwyn ddau fab ac mae'n byw gyda'i bartner yn ardal Brynmill, Abertawe, hithau'n offthalmolegydd sy'n gweithio yn Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd.

Ymhlith ei ddi-ddordebau mae cerdded - yn ddiweddar bu'n crwydro ar Lwybr Arfordirol Cymru - yn ogystal â darllen ac ysgrifennu.

PRIF DDISGYBLION CANOLFAN Y 6ed BRYN TAWE

Croeso i brif ddisgyblion newydd yr ysgol, sydd wrthi yn astudio ar gyfer eu lefelau A ym mlwyddyn tair ar ddeg. Steffan Leonard, Caitlyn White Manon Keeble a Towyn Bevan).



0 700461 826385

COLOFN LLYTHYRAU WILIA

Annwyl olygydd,

Neges sydd gennym ar gyfer y beirdd ymysg eich darllenwyr. Yr ydym (Cyhoeddiadau'r Stamp) yn bwriadu rhoi blodeugerdd o farddoniaeth at ei gilydd yn 2020, fydd yn cynrychioli yr ystod eang o farddoniaeth sy'n cael ei hysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg ar y foment hon. Mae hon yn fenter gyffroes, a fydd yn cynnwys gwaith gan brifeirdd a beirdd gwlad fel eu gilydd, beirdd ifanc ac aeddfed, beirdd gyda phentwr o gyfrolau i'w henw, a beirdd sy'n cyhoeddi am y tro cyntaf un.

Rydym yn fenter gyhoeddi annibynnol, yn debyg iawn i'r papurau bro. Nid ydym yn derbyn nawdd nac arian cyhoeddus, ond mae ein llyfrau a'n cyfrolau i'w cael mewn siopau Cymraeg ar draws y wlad. Bydd y gyfrol hon felly yn cael ei hariannu gan yr elw o werthiant cyfrolau blaenorol, a thrwy ragarchebion.

Ein gobaith yw derbyn gwaith gan ystod mor eang a phosib o gyfranwyr, felly dyma wahodd eich darllenwyr i gyflwyno 1-3 o gerddi ar gyfer cael eu cynnwys yn y gyfrol. Gofynnwn eu bod yn gyrru unrhyw gerddi i'w hystyried atom erbyn Rhagfyr y 31ain, 2019, a byddwn yn ymateb gyda phenderfyniad golygyddol yn y flwyddyn newydd (erbyn mis Chwefror).

Mae mwy o wybodaeth i'w chael o'n gwefan (ystamp.cymru) neu trwy gysylltu'n uniongyrchol. Yr ebost ydi blodeugerdd2020.ystamp@gmail.com, neu i rai sydd well ganddyn nhw roi gwaith i'r dyn post: Y Stamp, Boderwyddon, Carmel, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7AN.

Buasem yn ddiolchgar ofnadwy petai chi'n rhannu'r neges hon gyda'ch darllenwyr.

Diolch o galon

Grug Muse, ar ran Cyhoeddiadau'r Stamp.



Mae'n fis Hydref ac mae'r cnau yn aeddfedu ar y coed cyll a'r hen wiwer yn gorfod penderfynu ble i gadw nhw yn ddiogel dros fisoedd y gaeaf. Rhaid iddi wneud yn siŵr bod digon i'w chadw hi i fynd tan y gwanwyn. Wrth feddwl am gnau dw i'n cael atgofion o fy nyddiau cynnar yn Llanallgo, sir Fon. Roedd Mam a Dad yn mynd â ni efo bagiau i le ar gyrion Marianglas ble roedd mwy na ddigon ar y coed. Dw i'n siŵr roedden ni'n casglu llawer mwy nag o'n ni eisio ar gyfer ein hunain a chnau mwnci dw i'n cofio cael adeg y Dolig. Tybed a oedden nhw'n eu gwerthu er mwyn cadw'r blaidd o'r drws. Fel rheithor y plwyf doedd y tâl ddim yn ddigon i'n cadw'n ofnadwy o gyfforddus er doedden ni byth yn llwgu ac roedden ni'n hapus dros ben.

Ar hyn o bryd mae'r coed yn llawn lliwiau a phob math o eirin yn hongian yn drwm. Os dach chi'n hoffi tynnu lluniau dyma

amser da i grwydro, gwisgwch yn dda a chadwch eich llygaid ar agor - mae byd natur yn ddiddorol!

Mae'r Gymdeithas yn trefnu teithiau maes pob dydd Sadwrn mewn tair rhan o Gymru ac mi fydd croeso mawr i chi ymuno a ni. Os dach chi'n dysgu, neu wedi dysgu, wel dyma eich cyfle i ymarfer eich siarad ac, ar yr un pryd dysgu am fyf natur. Beth amdani? - Sadwrn Siarad pob dydd Sadwrn! Mae rhaglenni'r tair ardal ar ein gwefan



PWY OEDD GWILYM CRACH!

Cadeirydd Cyfeillion Gŵyr Guto Ap Gwent yn cyflwyno darlithydd cyntaf y tymor newydd yn Neuadd y Plwyf, Sgeti.

Cafwyd stori ddifur iawn am Gwilym Crach, Cymro Cymraeg o blwyf Llanrhidian yng Ngŵyr a gafodd ei grogi yn Abertawe yn y flwyddyn 1290 - ond llwyddodd i fyw! Y darlithydd oedd Andrew Dulle, Dirprwy Archifydd yn y Gwasanaeth Archifo Gorllewin Morgannwg yn Abertawe. Mae Andrew, sydd wedi dysgu siarad Cymraeg yn rhugl, wedi cyhoeddi llyfr am yr hanes ar ôl cyfieithu tystiolaeth i ymchwiliad y Fatican o'r iaith Ladin.



Archifo Gorllewin Morgannwg yn Abertawe. Mae Andrew, sydd wedi dysgu siarad Cymraeg yn rhugl, wedi cyhoeddi llyfr am yr hanes ar ôl cyfieithu tystiolaeth i ymchwiliad y Fatican o'r iaith Ladin.

CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU

Annwyl Olygydd,

Carwn dynnu sylw eich darllenwyr at gynhadledd flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru sydd i'w chynnal eleni yn Archifau Morgannwg, Caerdydd, ar 5 Hydref 2019.

Agorir y gynhadledd gan ein Llywydd Anrhydeddus, Yr Athro Gwynedd Pierce. Y siaradwyr a'u testunau fydd Richard Morgan: 'Glamorgan place-names, old and new'; Sioned Davies 'Enwau lleoedd yn y Mabinogi'; Rhian Parry ac Ifor D. Williams: 'Cam Ymlaen'; a Heather James a David Thorne: 'Mensura Med Diminih: boundary place-names of a 9th century estate, Llandybie, Carmarthenshire'. Cynhelir sesiwn hefyd ar 'Gaerdydd Ddwieithog' gyda Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd.

Gellir lawrlwytho'r rhaglen a'r ffurflen gofrestru ar ein gwefan: <https://www.cymdeithasenuwalleoedd.cymru/cynadledau/>

Cost y gynhadledd yw £25 (£20 i aelodau) yn cynnwys cinio, ond rhaid cofrestru erbyn 26 Medi.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i Gaerdydd!

Yn gywir,
Angharad Fychan,
Ysgrifennydd CELIC

CYMRAG

WILIA

Y mis hwn yng ngofal Steve Morris. Diolch yn fawr i'n cyfranwyr fel arfer. Y mis nesaf yng ngofal Elin Meek.

Anfoner cyfraniadau i wilia@hotmail.co.uk erbyn 25 Hydref



Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Gweithgareddau

Adran Seicoleg Gwyr-BrynTawe

Ymweliad i Ganolfan CUBRIC (Canolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd)

Trefnwyd ymweliad ym mis Mehefin 2019 i Sefydliad ymchwil y Niwrowyddorau ac Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd ar gyfer myfyrwyr bl.12 ac hefyd i ddisgyblion blwyddyn 11 a oedd yn awyddus i gael mewnwelediad cynnar i'r meysydd perthnasol (gan gynnwys Seicoleg, Niwrowyddoniaeth, Meddygaeth, Seiciatreg). Cynigodd y daith brofiad pontio hyfryd yn ogystal i gyrsgiau Safon Uwch. Mae CUBRIC yn gartref i ganolfan ymchwil delweddu'r ymennydd ac mae ynddi gyfuniad o gyfarpar niwroddelweddu newydd sy'n unigryw yn Ewrop.

Bwriad yr ymweliad oedd cynorthwyo'r myfyrwyr i ddeall mwy am dechnegau delweddu – MRI, PET a CAT ac i werthfawrogi sut mae'r technegau yma'n cael eu ddefnyddio i ddatblygu ein dealltwriaeth ni o gyflyrau niwroddirwyiol a niwroddatblygol.



Lleoliad Ymchwil Nuffield

Llwyddodd ddwy fyfyrwraig o flwyddyn 12, Shakira Morka ac Elen Scourfield i ennill lleoliad ymchwil Seicolegol eu natur yn ddiweddar. Cawsant gyfle i gael pedair wythnos o brofiad ymchwil byw mewn labor-dai ym Mhrifysgol Abertawe ac yn Techniquet, Caerdydd. Nod y prosiect ymchwil y bydd Shakira yn rhan ohoni yw archwilio'r ffyrdd y mae'r cyhoedd yn graddio perthnasedd newyddion gwleidyddol mawr yn ddibynol ar y cyfrwng y mae'r newyddion yn cael eu cyflwyno. Bydd yr ymchwil yn mesur felly effaith marchnata ar ganfyddiad. Bydd Elen yn brysur yn dylunio holiaduron addas i fesur barn y cyhoedd wrth ymweld â'r ganolfan Techniquet ac yn sgil hynny yn cymhwyso ei gwybodaeth o fethodoleg ymchwil a oedd yn rhan o'i chwrs Seicoleg Uwch Gyfrannol, gan ystyried dibynadwyedd a dilysrwydd y mesurau. Bydd Shakira ac Elen yn edrych ymlaen at fynychu seremoni wobrwyo ar ddiwedd y broses ac mi fyddant yn derbyn y Wobr Gold Crest gan yr enillydd Nobel Sir Martin Evans, am eu gwaith gwyddonol. Llongyfarchiadau mawr iddynt!

YSGOLORIAETH

Llwyddodd Heledd Owen o Fryntawe i ennill Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i astudio Seicoleg ym Mhrifysgol Aberystwyth ym Medi 2019. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Gŵyr ar Grwydr!

Unwaith eto eleni mentrodd griw o staff yr ysgol ar daith o gwmpas arfordir godidog y Gŵyr. Trefnir y digwyddiad yn flynyddol gan elusen

Macmillan a braf oedd cael cefnogi'r elusen hon unwaith yn rhag-or. Mae'r daith hon y 22 milltir o hyd ac yn ymestyn o Rosili i'r Mwmbwls a braf oedd cael cwmni dau ddisgybl y chweched dosbarth yn ymuno gyda ni sef Gwenno Robinson a Ffion Haf Morgan. Roedd y tywydd yn ysblenydd y tro hwn a'r olygfa hardd yn sicr wedi helpu i leddfur' boen yn y coesau a'r traed! Edrychwn ymlaen at gefnogi unwaith eto y flwyddyn nesaf. Ond am y tro, mae angen gorffwys y coesau!



Gŵyr a'r Gweilch

Chwaraeodd saith o fechgyn Ysgol Gyfun Gŵyr i dîm Gorllewinol dan 16 y Gweilch mewn gêm yn erbyn tîm Dwyrain y Sgarlets. Llongyfarchiadau gwresog i Joe Williams, Owain Green, Ben Thomas, Freddie Stevens, Cai James, Morgan James a Joe Rees



(Capten. Prin iawn y gwelir cymaint o fechgyn o un ysgol yn cael eu dewis i dîm rhanbarthol. Gwych!

CALENDR ABERTAW 2020 AR WERTH YN AWR TELERAU ARBENNIG I GYMDEITHASAU

Ar werth yn
Siop Ty
Tawe
neu
ebostiwrch
Wilia:

Heini
@gruffudd.org



Mae Pethau Rhyfedd yng Ngogledd Gŵyr

Awdur: Marc Kelleher
Darlunydd: DRMR
Ffotograffydd: Florence Kelleher



Mae Gŵyr yn llawn o straeon am ddreigiau, ysbrydion, gwyrachod, ceffylau dŵr a thylwythyn teg (neu Verry Volk yn Gŵyr). Er hynny, wyt ti wedi clywed am gorachod yn y Gŵyr? Mae'r corachod yn byw yng ngogledd Gŵyr, ble arall. Maen nhw wrth eu bodd yn casglu arian ac aur. Maen nhw'n cadw eu trysor yn yr ogofau cudd o gwmpas gogledd Gŵyr.

Amser maith yn ôl, roedd offeiriad Llanrhidian yn cerdded o eglwys Sant Rhydian a Sant Illtyd i'w dŷ. Yn anffodus, cyffwrddodd e'r garreg felltgedig o Lan-Elen, yn y postyn gât, pan oedd e'n cerdded adref. Roedd e'n mynd i gael lwc ddrwg. Y noson honno, aeth e'r gwely yn gynnar. Roedd llawer o freuddwydion ofnadwy gyda fe. Roedd gwyrachod yn ei roi fe mewn crochan. Wedyn, roedd tylwythyn teg yn dawnsio ar ei ben a chwerthin amdano fe.

Yn olaf, roedd e'n breuddwydio am drysor mewn ogof. Roedd llawer o aur ac arian yn bentyrrau taclus. Yn rhyfedd, roedd e'n canu telyn. Pan ddihunodd e'n gynnar, gallai e gofio pob breuddwyd, yn enwedig yr un am yr arian ac aur. Cododd e'n gyflym a gwisgodd e'i grys du, trowsus du a hosanau llwyd. Wedyn, galwodd e am ei was i'w helpu fe i chwilio am yr ogof. Roedd ei was yn ffyddlon ac yn garedig. Roedd rhaid i'r gwas gasglu sach fawr, esgidiau'i feistr a'i delyn.

Aethon nhw'n gyflym ar hyd y llwybr tu ôl i'r eglwys i mewn i'r goedwig. Roedd y gwynt yn dechrau i oernadu. Gallai e gofio breuddwydio am goeden gelynnen.

Felly, crwydron nhw'n obeithiol o gwmpas y goedwig. Ar ôl roedden nhw'n edrych am y goeden gelynnen, penderfynon nhw orffwys a bwyta cinio. Roedd y gwas wedi gwneud cinio blasus, brechdan ham gyda phicl, afal ffres a chaws. Yn sydyn, sylwodd yr offeiriad aeron coch yn y pellter. Roedd y goeden gelynnen yn ei freuddwyd. Rhedodd y ddau ohonyn nhw'n gyffrous i'r goeden. Nesaf i'r goeden oedd gât fetel. Ceision nhw'n agor y drws ond roedd e'n rhy drwm. Ar ôl roedden nhw'n ceisio am oes, roedden nhw'n teimlo'n rhy wan i barhau. Felly, eisteddon nhw o flaen y gât. Dechreuodd yr offeiriad ganu ei delyn. Roedd y gerddoriaeth yn heddychol ac yn dawel. Yn sydyn, gallen nhw glywed y gât yn gwichian agored. Codon nhw a rhedeg tuag at y gât fetel.

Er hynny, dechreuodd y gât gau. Yn gyflym, dechreuodd e ganu ei delyn ac agorodd y drws eto. Rhedon nhw i mewn i'r ogof. Y tro yma, roedd yr offeiriad yn parhau canu ei delyn ac arhosodd y drws agored. Yn yr ogof, roedd e'n dywyll ond gallen nhw weld llawer o arian ac aur yn sgleinio. Roedd ei lygaid yn cael ei agor. Er hynny, yn y gornel oedd dau siâp bach yn



cysgu a chwyrnu. Roedd yr offeiriad yn gwasgu ei was i gasglu'r trysor. Yn anffodus, allai e ddim yn cario digon. Felly, stopiodd yr offeiriad ganu ei delyn a chasglodd e lawer o aur ei hunan. Yn sydyn, stopiodd y chwyrnu a safodd y ddau siâp i fyny. Edrychon nhw yn



grac iawn. Roedden nhw'n gorachod drygionus, oedd wedi casglu eu trysor dros amser hir. Gwelodd yr offeiriad a'i was y corachod a dechreuon nhw redeg allan o'r ogof. Er hynny, dechreuodd y drws gau. Wrth iddyn nhw agosáu'r drws, cafodd y drws trwm ei gau gyda gwrthdrawiad enfawr. Y sain olaf oedd sgrechian yn dod o'r ogof. Heddiw, does neb yn gwybod ble mae'r ogof.

Roedd y corachod yn byw mewn ogof ar bwys eglwys Sant Rhidian a Sant Illtyd. Cafodd yr eglwys ei hadeiladu yn wreiddiol yn y chweched ganrif ond yr eglwys nawr ei hadeiladu yn y drydedd ganrif ar ddeg. Mae'r tŵr yn gryf a dal achos basai'r bobl leol yn cwrdd yna pan gawson nhw eu hymosod gan fôr-ladron neu'r Normanaidd. Mae'r garreg enfawr ar y top o'r eglwys. Ar y garreg, cafodd tân ei oleuo er mwyn rhybuddio'r bobl leol o ymosodiad o'r môr neu'r tir. Yn y cyntedd, mae carreg ryfedd o'r enw



'Carreg Wahanglwyfus'. Mae'r garreg betryalog ryfedd yn cael ei hadeiladu o galchfaen. Mae lluniau o anifeiliaid a bodau dynol. Mae rhai pobl yn meddwl taw'r garreg ydy bedd Llychlynnaudd o'r nawfed ganrif. O flaen yr eglwys mae croes doredig Geltaidd. Cafodd pobl eu chwipio dros y garreg os oedden nhw'n ddrwg.

Y tro nesaf rwyf ti'n mynd i Lanrhidian cofia i edrych ar yr ogof. Bydd yn ofalus, mae rhaid i ti ganu telyn yn gyntaf!

Geirfa

corrachog -gnomes
offeiriad-priest
melltgedig-cursed
breuddwydion-dreams
pentyrrau-piles
gwas-servant
oernadu-howl
celynnen-holly
gwichian-creak
gwrthdrawiad-crash
calchfaen-limestoneg
gwahanglwyfus-leprous
Llychlynnaudd-Viking
toredig-broken

WYTHNOS WEITHGAREDDAU GŴYR

Cafwyd wythnos llawn profiadau a joio yn ystod wythnos olaf tymor yr haf. Am y tro cyntaf eleni, cynhaliwyd wythnos weithgareddau i ddisgyblion wedi blwyddyn o waith caled. Cychwynwyd yr wythnos gyda thraith i Oakwood i flynyddoedd 7-10 lle cafwyd digon o sbri yn yr haul. Ar y dydd Mawrth fe deithiodd rhai disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 i San Ffagan a chafodd blynyddoedd 9 a 10 gyfle i ymweld â'r Senedd ym Mae Caerdydd. Hefyd yn rhan o'r wythnos hwylus yr oedd teithiau i'r sinema, gweithdai animeiddio a gwersi syrffio. Darparwyd lluo o brofiadau i'r disgyblion a phrofodd yr wythnos yn un hynod lwyddiannus!

Taith Adran Gerdd a Chymraeg Bryn Tawe i Amsterdam

Yn ystod wythnos olaf tymor yr haf aeth criw o 44 o ddisgyblion gydag aelodau o staff ar daith berfformio i Amsterdam. Ar ôl gadael yr ysgol yn blygeiniol ar fore Llun, Gorffennaf y 15fed, teithiodd y criw i lawr i Dover a hwylio i Calais. Ar y ffordd i'r Iseldiroedd cafodd y côr a'r offerynwyr gyfle i berfformio mewn ffatri siocled ger Oostende. Yn ffodus roedd amser am ychydig o siopa yn y siop siocled hefyd, cyn teithio ymlaen i Amsterdam.



Diwrnod yn Amsterdam oedd y cynllun ar gyfer dydd Mawrth a'r weithgaredd gyntaf oedd ymweliad ag Amgueddfa Cartref Anne Frank. Profiad arbennig a dirdynol i'r disgyblion a'r staff. Wedi dod allan o'r amgueddfa canodd y côr ar y palmant gan ddiddanu'r twristiaid! Ymlaen â ni wedyn i Amgueddfa Van Gogh a chyfle i ddysgu am yr arlunydd enwog. Wedi hynny allan â ni i'r sgwar o dir ger yr amgueddfeydd, sef y Museumplein. Yna daeth un o gynddisgyblion Bryn Tawe i siarad gyda'r criw. Mae Christian Webb wedi bod yn byw a gweithio yn Amsterdam ers blwyddyn a sgwrsiodd gyda'r disgyblion am bwysigrwydd eu

Cymreictod a pherfformio. Cafwyd cyfle am ambell i gân yng nghwmni Christian ar y Museumplein cyn i ni symud ymlaen am

CHWECHED BRYN Tawe I'R BRIFYSGOL

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i holl aelodau'r Chweched a lwyddodd yn eu harholiadau safon uwch/ uwch gyfrannol yn ystod yr haf. Pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

Llun: chwech o ddisgyblion bodlon BrynTawe a fydd yn dilyn cyrsiau prifysgol.



daith ar y gamlas. Roedd hi'n hyfryd cael gweld y ddinas o'r dŵr a mwynhau'r haul. Gyda'r nos bu'r côr a'r offerynwyr canu y tu allan i'r gwesty gan ddiddanu gwesteion a thwristiaid.

Fore Mercher ymlaen â ni i barc thema De Efteling am ddiwrnod o hwyl a sbri! Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod llawn sgrechian, gweiddi, chwerthin a gwlychu – a chyfle am sglodion neu grempog arbennig! Nos Fercher aethon ni am dro ar droed o'r gwesty a chael hufen ia ger melin wynt.

Daeth bore lau ac amser ffarwelio ag Amsterdam. Ar ein ffordd yn ôl i Calais fe wnaethon ni ymweld ag Ypres am rai oriau. Yna cafwyd ymweliad â siop siocled cyn cerdded at Glwyd Menin. Yno fe wnaeth y côr a'r offerynwyr berfformio wrth i bobl grwydro'r safle. Ar ôl ychydig o amser yn crwydro Ypres roedd hi'n amser dychwelyd i'r bws ac anelu am Calais, ac yna yn ôl i'r ysgol!

Taith arbennig iawn a phawb wedi mwynhau ac yn edrych ymlaen at daith 2020 yn barod!



TAITH CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS I GERNYW

Ymunodd 41 o'r aelodau ar ein taith estynedig i Gernyw ym mis Medi. Seiliwyd ein hymweiliad ar westy yn nhre Camborne, hen dre hanesyddol a dyfodd yn sgil y diwydiannau copr a thun y gorffennol. Torrwyd y siwrnai yn Abaty Buckfast, yr unig abaty yn Lloegr sydd wedi'i ail adeiladu ac yn cael ei ddefnyddio at y pwrpas gwreiddiol. Mae'r mynachod yno wedi arbenigo ar greu ffenestri lliw a gwelsom yno un o'u campweithiau, ffenest liw yn dangos Crist yn y Swper Olaf.

Allforiwyd copr a thun o Gernyw i Abertawe, a phorthladd Portreath oedd prif borthladd Cernyw erbyn 1827. Heddiw, ar ein hymweiliad, fe welsom bentre gwyliau, a'r harbwr, oedd mor brysur, yn maes parcio concrit i'r ymwelwyr. Un o'r pyllau oedd yn danfon ei gynnyrch i Bortreath ac ymlaen at Abertawe oedd Pwll Gwennap. Caewyd y pwll wrth i siaf y pwll dymchwel a chreodd hyn amffitheatr naturiol. Yma fe ddaeth John Wesley i bregethu yn 1762. Dychwelodd 18 o weithiau ac ar un achlysur honnir bod 32,000 yn bresennol yn gwranddo arno. Mae'r Eglwys Methodistaidd yn berchen ar y safle a'r capel gerllaw. Cawsom groeso cynnes i'r safle a chanasom "Calon Lân" gydag arddeliad yn y capel bach. Treuliodd rai y prynhawn yn ymweld â Phwll Tun Poldark ac eraill yn mwynhau crwydro Gerddi Trebah.

Mae'r daith ar hyd arfordir gogleddol Cernyw tuag at Land's End yn cynnig golygfeydd gwych ar hyd

y ffordd, ond mae dynion busnes wedi llwyddo amharu ar harddwch y pwynt mwyaf gorllewinol o dir mawr Prydain. Pleser felly oedd mynd ymlaen at Theatr Minack i fwynhau cyflwyniad o nofel George Eliot "The Mill on the Floss." Mae'r theatr awyr agored yma yn unigryw, gyda therasau wedi'u cerfio allan o'r creigiau gwenithfaen yn gwynebu'r môr agored. Braf oedd eistedd



yn yr haul a mwynhau'r perfformiad gyda'r tonau'n torri dros y creigiau islaw.

Treuliwyd diwrnod yn ymweld â'r Amgueddfa Werin yn Helston, porthladd Falmouth a chafwyd taith blerserus mewn cwch i fyny Afon Fal at ddinas Truro.

Mae Gosedh Kernow yn cyfarfod yn flynyddol ar y penwythnos cyntaf ym mis Medi. Roedd y cyfarfod eleni yn St Just yn cyd-daro ag ymweliad y Gymdeithas â Chernyw. Cawsom wahoddiad i ymweld â'r seremoni ar y Sadwrn cyn dychwelyd i Dreforys. Roedd croeso hefyd i'r tri sydd yn aelodau o Orsedd y Beirdd yng Nghymru, y Prifardd Robat Powell, Harri Clarke Jones a David Gwyn John ymuno yn yr orymdaith a chylch yr orsedd. Yn y seremoni urddwyd pobl sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddiwylliant Cernyw. Ymhlith yr enwau eleni oedd y gantores Gwenno, sef Gwenno Saunders o Gaerdydd. Anrhydeddwyd hi am wasanaeth i'r iaith Gernyweg a Chernyw a chafodd gymeradwyaeth frwd gan y Cymry o Dreforys. Sefydlwyd Gorsedh Kernow yn 1928 gyda chymorth y sefydliad yng Nghymru. Roedd nifer o elfennau'r

seremoni yng Nghernyw yn gyfarwydd i ni'r Cymry ond fe gynhaliwyd yr holl

trafodion yn y Gernyweg a'r Saesneg.

Yn ystod yr ymweliad llwyddiannus a phleserus roedd un o'n haelodau ffyddlon, y Parchg. Derwyn Morris Jones, yn dathlu ei benblwydd yn 85 oed. Dathlodd Derwyn yn ein cwmni a chawsom deisen draddodiadol Cernyweg, y Deisen Saffrwm, i rannu rhymgom ar yr achlysur. Ysgrifennodd y Prifardd Robat Powell yr englyn hwn yn deyrnged iddo:

PEN BLWYDD DERWYN

Yn daer, gwnawn ein cân, i Derwyn heddiw

A'i chwyddo fel emyn

O fwndel Pantycelyn,

A'i rhoi i sant y Rhos ei hun

Cynhelir cyfarfod mis Hydref nos lau Hydref 17eg, y gwestai yw'r awdur a darlledwr Jon Gower. Yr Athro Geraint Jenkins yw siaradwr mis Tachwedd (21ain). Cynhelir y cyfarfodydd yn Festr'r Tabernacl am 7.00.y.h.

CYLCH CINIO CYMRAEG ABERTAWE

Y Parchedig Derwyn Morris Jones oedd gwestai Cylch Cinio Cymraeg Abertawe mewn noson arbennig yng ngwesty'r Norton ger Ystumllwynarth yn ystod Mis Medi.

Clwyd stori hynod taid Derwyn, sef Robert David Morris, cyn-löwr a gwerthwr llyfrau teithiol o Goedpoeth ger Wrecsam, a ddaeth hefyd yn awdur nofelau a drama.

Roedd gan Robert David Morris awydd cryf i newid pethau yng Nghymru, a bu'n un o arweinwyr yr hen I.L.P. yn ei ardal. Gwrthryfelai yn erbyn y drefn a orseddodd y Saesneg yn iaith addysg a masnach, gan ddarostwng statws y Gymraeg.

Mynnai siarad Cymraeg yn siopau Wrecsam oedd wedi coleddu'r ffasiwn newydd. Cyflwynodd ei nofel gyntaf i'r A.S., E. T. John "am ei sêl a'i ymdrech dros Gymru". Teitl ei nofel gyntaf oedd 'Derwyn'. Bellach mae dynion a merched fel ei gilydd yn mynychu nosweithiau'r Cylch Cinio ac mae croeso cynnes i bobl ymuno drwy gysylltu â'r ysgrifennydd, John Thomas ar 01792 423504.



NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWA A THŶ TAWE

Bu ddiwedd Awst a dechrau Medi yn gyfnod prysur arall i ni gyd. Gwychbeth oedd clywed ein gwirfoddolwr arbennig, Alan, yn siarad yn fyw gyda'n Sywddog Datblygu Meinir ar raglen Bore Cothi radio Cymru! Siaradodd Alan am ei waith diwyd yn cyflwyno a chynnal Radio D, radio i ddysgwyr, gan ddysgwyr y gellid ei ddarganfod ar-lein ar Cymru.fm. Mae'n wyneb cyfarwydd i nifer gan ei fod e hefyd yn gwirfoddoli yn y siop pob bore Gwener, yn tynnu sgwrs a pheri gwên.



Yr oeddem yn falch i gynnal cyfarfod cenedlaethol Shelter Cymru ac eraill sydd yn cefnogi'r digartref yng Nghanolfan Tŷ Tawe ym mis Medi, ac erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd mi fyddwn wedi cynnal bore coffi i godi arian i'r elusen MacMillan. Cofiwch fod drysau Tŷ Tawe ar agor i grwpiau cymunedol Cymraeg defnyddio'n hystafelloedd, ac mae croeso i gyfundrefnau eraill ymholi o ran llogi.

Mae'n braf iawn cael croesawu dysgwyr newydd, myfyrwyr a disgyblion yn nôl i Dŷ Tawe am y tymor newydd. Mae'n braf hefyd cael darparu cartref clud i'n holl grwpiau cymunedol a diwyllianol unwaith eto wedi seibiant yr haf. Trwy fynychu ffeiriau'r glas, sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn yr ysgolion a pharhau i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau i edrychwn ymlaen i'r misoedd o'n blaen.

Newyddion o Siop Tŷ Tawe:

Mae amrywiaeth o nwyddau newydd ar gael yn Siop Tŷ Tawe, gan gynnwys:

Cryno Disgiau newydd Steve Eaves, Blodau Papur, Gwilym Bowen Rhys ac eraill

Baneri newydd gan MrFlag, yn cynnwys baner Cofiwch Dryweryn a'r gwledydd Celtaidd

Llyfrau'r Mis: *Mudferwi* gan Rebecca Roberts a llyfr *Rygi* RILY

Mae'r sillf lyfrau ail-law yn hefyd yn profi'n boblogaidd iawn, a gellir darganfod ambell i drysor arni. Rydym yn ddiolchgar iawn am unrhyw lyfrau ail-law a roddir i'w cadw yn y "llyfrgell" fach yn y bar neu i'w gwerthu yn y Siop.

Nosweithiau ar y gweill yn Nhŷ Tawe:

11eg o Hydref: Sesiwn Werin

18fed o Hydref: Noswaith Jacs yn Joio

25ain o Hydref: Paul Eds (Dewin Cymru)

2il o Dachwedd: Y digrifwr Ellis James! Tocynnau bron â gwerthu allan

15fed o Dachwedd: Welsh Whisperer

Am fanylion pellach, rhowch alwad ar 01792 460906 neu ebostiwch swyddfa@menterabertawe.org

CLWB DRAMA

YN DECHRAU / STARTING:

17.09.19



MENTER IAITH ABERTAWA + THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

Bob nos Fawrth / Every Tuesday night

Lleoliad / Location : Tŷ Tawe, 9 Stryd Christina, SA1 4EW

Amser / Time : 5-6 pm i flynyddoedd / for years 3, 4, 5 + 6
6-7 pm i flynyddoedd / for years 7, 8 + 9


£24 AM 6 WYTHNOS / FOR 6 WEEKS

Dewch i ddatblygu eich sgiliau perfformio!
Come and develop your performing skills!

Ymholiadau / Enquiries : datblygu@menterabertawe.org / 01792-460 906



Sgwad 'Sgwennu Tŷ Newydd



Wyt ti'n caru 'sgwennu'? Ydi dy ddychymyg di'n drên?
Yna ymuna ag un o ddiwrnodau Sgwadiâu 'Sgwennu Tŷ Newydd'!

Cynhelir cyfres o ddiwrnodau Sgwad 'Sgwennu yn ystad y flwyddyn ysgol ar gyfer pobl ifanc rhwng 10 a 14 mlwydd oed. Byddi'n dysgu wrth droed rhal o awduron gorau Cymru gan gychwyn ar ddydd Sul 22 Medi yng nghwmni Bardd Plant Cymru, Gruffudd Eifion Owen.





O'r Rhyll i'r Rhondda, o Hwlfordd i Harlech, o'r Drenewydd i Ddyfnant – lle bynnag yng Nghymru yr wyt ti'n byw, os wyt ti'n hoffi ysgrifennu mae croeso cynnes i ti yn Sgwad 'Sgwennu Tŷ Newydd. Mae llefy ar gael i deuluoedd sy'n teithio a bell.

Lleoliad: Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd,
Llanystumdwy, Gwynedd, LL52 0LW

Amser: 11.00 am – 2.00 pm

Cost: £10 y sesiwn
(ysgoloriaethau ar gael i blant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim)

Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru ar gyfer Sgwad, cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru ar 01766 522811 neu ewch i: www.tynewydd.cymru

TAITH YR HAF: DILYN LLWYBRAU T H PARRY-WILLIAMS



Dilyn llwybrau T.H. Parry-Williams a ddenodd deugain o Abertawe a'r cyffiniau i Freiburg. Cafodd y daith ei threfnu yn 22 taith ryngwladol dosbarthiadau llenyddol Abertawe.

Astudiodd T. H. Parry Williams, gydag ysgoloriaeth o Brifysgol Cymru, o dan Rudolf Thurneysen yn Freiburg. Pan oedd yno



manteisiodd ar ddarlithiau ar athroniaeth a seicoleg. Teithiodd i'r Swistir, ac yma, meddir, y cyfansoddodd ei awdl i'r Mynydd, a'r bryddest i Gerallt Gymro, a enillodd Gadair a Chronon Eisteddfor Genedlaethol Wrecam yn 1912. Fel mae'n digwydd, ymysg eraill a astudiodd yn Freiburg mae cyd-olygydd Wilia, Elin Meek, a hefyd Helen Evans, a oedd ar y daith.

Aeth y criw ar sawl taith—ddwywaith i Ffrainc, i Colmar a Strassburg, un daith i'r Schwarzwald ac un i Konstanz a'r Bodensee. Yn eglwys gadeiriol Konstanz gwelwyd cerflun a bedd Pelagius—y Brython a heriodd ddaliadau caeth yr eglwys gynnar.



Yn dilyn bore yn Freiburg aeth y criw i fyny Schausland, a oedd yn gyfarwydd i'r bardd.



Rhian Williams, fel Meryl Mort.

> John Evans yn cael ei roi ar bawf gan Phyl Harris



Isod: Huw Chiswell yn canu 'Gadael Abertawe'.



SIOP TY TAW

- ANRHEGION I BAWB
- Y LLYFRAU GORAU
- CARDIAU
- LLYFRAU AC ANRHEGION I BLANT

YSTALYFERA'N DATHLU 50 MLWYDDIANT

Daeth 120 o gyn staff Ysgol Gyfun Gymraeg Ystalyfera ac eraill i Westy'r Marriott ganol Medi i ddathlu 50 mlwyddiant yr ysgol.

Rhoddodd John Evans, cyn bennaeth Adran Gymraeg yr ysgol, amlinelliad o'r frwydr fawr a fu i sefydlu'r ysgol yn 1969, yn wyneb gwrthwynebiad llawer o drigolion Cwm Tawe. Erbyn 1971 cafodd disgyblion Abertawe ymuno â'r ysgol. Ar ôl sefydlu Ysgol Gwyr yn 1985, byddai disgyblion Abertawe'n dal i fynd i Ysgol Ystalyfera i'r chweched dosbarth, tan i Ysgol Gwyr gael ei dosbarth chwech ei hun.

Yn ei anerchiad, meddai'r pennaeth presennol, Matthew Evans, fod yn yr ysgol, erbyn hyn, rhwng safle Ysgol Ystalyfera Bro Du yng nghwm Tawe ac ym Mhort Talbot, 1400 o ddisgyblion.

Cafwyd adloniant disglair gan bedwar o gyn-ddisgyblion yr ysgol: yr actor Rhys Jones, yr actor a'r gantores Rhian Williams, y cerddor a'r diddanwr Phyl Harris a'r cerddor Huw Chiswell.